| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 21 Hydref 2010 |
| **TEITL** | Adroddiad Cyrhaeddiad y Cyngor 2009/10 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2009/10, a'i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Gwasanaeth Strategol a Gwella |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r ddogfen |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Cyngor i gyhoeddi cynllun sydd yn crynhoi ei brif gynlluniau ar gyfer y flwyddyn a hefyd i adrodd ar berfformiad y Cyngor ar y prif welliannau a dangosyddion. Mae'r Cynllun Tair Blynedd ei hun a'r adolygiad sydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor yn cyflawni'r gofyn cyntaf o ran amlinellu prif gynlluniau'r Cyngor. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn ddrafft o'r ddogfen a fydd yn cyflawni'r ail ofyniad o ran adrodd ar berfformiad 2009/10. Mae felly yn adrodd ar beth sydd wedi ei gyflawni a beth a lithrodd yn ystod y flwyddyn honno.

1.2 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Cyngor ar faterion yn y Cynllun Tair Blynedd.

## 2. Y CYNNWYS

2.1 Mae 'r adroddiad yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor ar holl welliannau a dangosyddion y Cynllun Tair Blynedd at ddiwedd 2009/10. Wrth gwrs, mae'r materion hyn oll ym meysydd gwaith pwyllgorau craffu unigol, ac mae'r pwyllgorau hynny wedi cael cyfle i herio cynnydd yn y meysydd unigol yn eu cyfarfodydd rheolaidd.

2.2 Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun mewn ffurf naratif trwy roi disgrifiad byr o gyrhaeddiad yn ystod 2009/10. Gwneir hyn ar gyfer y Blaenoriaethau

Strategol sydd yn y Cynllun ar hyn o bryd. Yn ychwanegol, ceir manylion pellach am yr holl gynlluniau gan gynnwys esboniad o'r camau gweithredu lle bu llithriadau ar ddiwedd 2009/10.

2.3 Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi derbyn peth beirniadaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddwy elfen o'r adroddiad cyrhaeddiad:-

- Pa mor ddarllenadwy yw'r adroddiad, gan gofio bod crynodeb cyhoeddus o'r ddogfen yn cael ei pharatoi ac am gael ei ddosbarthu fel rhan o Newyddion Gwynedd.
- Bod angen bod yn fwy cytbwys wrth adrodd ar berfformiad, gan ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio arwyddocâd ac effaith unrhyw fethiant i gyflawni targedau

2.4 Cafodd y mater sylw yng nghyfarfod y Prif Bwyllgor Craffu ar 30 Medi, pan ofynnwyd i sylw pellach gael ei roi i sicrhau bod y naratif yn y ddogfen yn adlewyrchu'r wir sefyllfa o ran perfformiad y Cyngor yn well. Mae'r copi o'r ddogfen sydd ynghlwm wedi ei newid i ymateb i'r cais hwnnw.

2.5 Oherwydd yr amserlen ar gyfer anfon agenda'r Cyngor, adroddir ar unrhyw sylwadau gan Fwrdd y Cyngor yn y cyfarfod.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor:

(a) gymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2009/10, a'i fabwysiadu.
(b) Awdurdodi'r Pennaeth Adran Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r adroddiad.